Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Sirol Brynffordd

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg







Mae disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Brynffordd yn fawr iawn. Mae hyn oherwydd bod eu hathrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar eu cyfer sy'n gwneud dysgu yn gyffrous ac yn hwyl. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, creadigol ac uchelgeisiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda. Maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus o oedran cynnar.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn ofalgar, yn oddefgar ac yn barchus tuag at ei gilydd ac at oedolion. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod bod staff yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu'n cael anawsterau. Mae staff wedi gweithio'n galed i greu'r ethos pwyllog ac anogol hwn, sy'n cyfrannu at ddysgu effeithiol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu a darpariaeth ychwanegol sy'n diwallu anghenion a diddordebau addysgol ac ehangach y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm, ac mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad â'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn bwrpasol ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destunau go iawn. Mae ystafelloedd dosbarth a gofodau awyr agored yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol a gweithgar lle mae disgyblion yn mwynhau digonedd o gyfleoedd i gydweithio mewn parau a grwpiau bach.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweinyddiaeth effeithlon a chefnogol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, ac fel tîm, yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. O ganlyniad, ceir ethos ysgol gyfan effeithiol ac ymdeimlad o waith tîm lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Mae'r ysgol yn dda yn nodi'r meysydd o'i gwaith sydd fwyaf effeithiol a'r agweddau hynny y mae angen eu gwella. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i osod uchelgeisiau clir ar gyfer cyfeiriad yr ysgol.

# Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, a phenderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ymateb i dasgau dysgu

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Brynffordd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 82 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 60 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 7.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 13.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | Mawrth 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 28/01/2014 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 05/12/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.